| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mai 2016** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros y Parth Cyhoeddus/ Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol/Rheolwr Adain: Rheoli Rhwydwaith** |
| **Teitl:** | **Trefniadau'r Cyngor i dorri glaswellt yn yr ardal wledig ar gyfer 2016/17** |

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

Rhaglen torri glaswellt priffyrdd gwledig 2016-17 y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gadw'r brifffordd yn ddiogel, o dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor hefyd ddyletswydd statudol i hyrwyddo bioamrywiaeth, o dan Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC). Oherwydd bod gan y Cyngor ddyletswydd i gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i'w bolisïau adlewyrchu y ddwy set o ofynion, sy'n golygu nad yw datblygiad polisi yn syml, ac yn aml yn cael ei herio gan bartïon â diddordeb.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r trefnau torri glaswellt yn Sir Ddinbych wedi cael eu diwygio sawl gwaith dros y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r newidiadau hyn wedi digwydd o ganlyniad i'r trafodaethau parhaus am "*daclusrwydd*" yn erbyn "*bio-amrywiaeth*". Mae'r un dadleuon hefyd wedi cael eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd pwyllgor archwilio. Mae'r trefniadau sydd wedi dod i'r amlwg ar ddiwedd y broses hon bellach yn cael eu hystyried i fod y cydbwysedd mwyaf priodol rhwng y ddwy set o ofynion. Argymhelliad yr adroddiad hwn felly yw; y dylai'r **Pwyllgor gymeradwyo'r Polisi torri glaswellt priffyrdd gwledig sydd ynghlwm fel Atodiad Un.**

## 3. Manylion

a) Mae gan Sir Ddinbych 1,415 cilomedr o ffyrdd, llawer gyda llain sy'n cydgyffwrdd ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chadw yn y gwanwyn a/neu'r haf i sicrhau nad yw'n mynd yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd, yn cynnwys cerddwyr. Yn draddodiadol, roedd ymylon y priffyrdd yn cael eu torri ddwywaith y flwyddyn, (fel arfer i led o 1 metr). Mae'r toriad yn cael ei weithredu yn gyffredinol, waeth beth yw aliniad neu led y ffordd.

b) Fodd bynnag; cyflwynwyd y Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) yn 2006, gyda Adran 40(1) yn gosod dyletswydd statudol newydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth weithredu ei swyddogaethau, i *"ystyried, cyn belled ag sy'n gyson ag arfer priodol y swyddogaethau hynny, at ddiben gwarchod bioamrywiaeth".*

c) Mae'r cyhoedd a grwpiau cyhoeddus yn benodol, yn disgwyl i gynghorau i gydymffurfio â'r Ddeddf, ac i ymgymryd â'u rhaglenni torri gwair yn fwy cyfrifol. Mae'n deg dweud bod llawer o gynghorau wedi ymateb braidd yn araf i'r Ddeddf newydd, ac nid oedd Sir Ddinbych yn eithriad. Roedd hi'n nifer o flynyddoedd cyn y cyflwynwyd unrhyw newidiadau sylweddol i'r trefniadau torri.

d) Pan gyflwynwyd y cyfundrefnau newydd, roedd adlach gan y cyhoedd, a oedd yn disgwyl gweld yr un lefelau o daclusrwydd yr oeddent wedi arfer eu gweld dros y blynyddoedd. O ganlyniad cafodd rhai o'r cyfundrefnau torri eu hadfer. Arweiniodd hyn at adlach gan y lobi amgylcheddol, oedd yn honni nad oedd y Cyngor yn cymryd ei ddyletswyddau NERC statudol o ddifrif. Roedd ymgynghoriadau pellach gyda swyddog bioamrywiaeth y Cyngor, a gwnaethpwyd rhai newidiadau ychwanegol.

e) Penodwyd contractwyr newydd ar gyfer tymor torri 2015-16. Aeth y contract yn dda, yn enwedig o ystyried mai dyma'r flwyddyn gyntaf. Bydd yr un contractwyr yn eu lle ar gyfer tymor 2016-17, felly dylai'r broses fod hyd yn oed yn fwy llyfn. Cynhaliodd Groundwork Ltd y gwaith o dorri ar hyd y brif ffordd, gyda Leveretts yn gyfrifol am weddill y rhwydwaith gwledig.

f) Mae'r profiad o dymor 2015 yn tueddu i ddangos bod arferion gwaith y Cyngor yn awr mor agos at fod yn 'iawn' ag y byddant fyth. Felly; ar ôl ymgynghori'n eang, a thrafod yn agored ynghylch sut y dylem reoli'r gwaith o gynnal a chadw ymylon ein priffyrdd gwledig, y trefniadau a ddangosir yn Atodiad Un yw'r canlyniad terfynol.

g) Mae hefyd yn werth nodi bod Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu bioamrywiaeth fel un o'r ystyriaethau i roi sylw iddynt wrth ystyried y nodau o "wydnwch" a "chyfrifoldeb byd-eang". Mae Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi datgan y dylai'r ddyletswydd bioamrywiaeth newydd gael ei gryfhau, ac y dylai fod yn ofynnol ar gyrff cyhoeddus i nodi pa gamau y maent wedi eu cymryd i warchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau pwysicaf yng Nghymru.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012/17 yn nodi: - Bod gan drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych fynediad i rwydwaith o ffyrdd diogel a reolir yn dda.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gyllideb torri gwair blynyddol ar hyn o bryd yn oddeutu £152,000 ac mae'r swm hwn yn ddigonol i ymgymryd â'r gwaith a ddangosir yn yr amrywiol amserlenni

## 7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Archwilio ac eraill, ac ydi Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gyflawni?

Oherwydd y proffil uchel a natur ddadleuol yn aml o gynnal a chadw ymylon mae'r mater hwn wedi cael ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu Cymunedau y cyngor yn rheolaidd dros y chwe blynedd diwethaf ac mae pob cyfarfod wedi helpu i lywio a datblygu strategaeth. Cafodd y mater ei drafod yn archwilio ym mis Hydref 2009, mis Medi 2011, mis Ionawr 2012, Hydref 2012 ac Ebrill 2015. Ynghyd â hyn, mae hefyd wedi bod cyfres o gyfarfodydd gyda Swyddog Bioamrywiaeth y Sir sydd yn ei dro wedi cael cyfarfodydd a mewnbwn gan grwpiau lleol â diddordeb.

Mae cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal ac yr ymdeimlad yw nad oes unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y trefniadau. Atodiad 4 yn cyfeirio.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes datganiad wedi'i sicrhau gan nad oes unrhyw oblygiadau ariannol sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwn.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae gweithredu’r polisi yn gywir wedi’i gynllunio i wrthsefyll pob risg y gall y Cyngor ei wynebu wrth ymdrin â'r cyfrifoldebau deddfwriaethol a roddir arno.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau archwilio o ran sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i amcanion polisi a bod gwasanaethau yn cwrdd â thargedau perfformiad.

**Swyddog Cyswllt:**
Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Ffôn: 01824 706801

Rheolwr Priffyrdd Strategol
Ffôn: 01824 706875